COSVR760

Rheoli, cyfarwyddo ac arwain gweithrediad offer neu beiriannau

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar ategol i reoli, cyfarwyddo ac arwain gweithrediad offer neu beiriannau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithrediadau codi ond gan gynnwys offer a pheiriannau sy'n cael eu defnyddio fel llwyfannau gwaith

Mae'r safon hon ar gyfer pobl y mae'n ofynnol iddynt reoli, cyfarwyddo ac arwain gweithrediad peiriannau neu beirianwaith; **nid** yw ar gyfer cyfarwyddo symudiadau rhwng lleoliadau neu slingio a signalu offer neu beiriannau ar gyfer codi a throsglwyddo llwythi mewn gweithrediadau codi. Mae'n cynnwys pobl sy'n cyfarwyddo ac yn arwain offer neu beiriannau a ddefnyddir fel llwyfannau gwaith. Gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 dehongli'r wybodaeth a roddir am y gwaith, yr adnoddau, a defnyddio offer neu beiriannau a chadarnhau ei pherthnasedd

P2 trefnu gydag eraill ym mha drefn y dylid gwneud y gwaith

P3 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a chyfredol, dogfennau statws cyfreithiol arbennig, canllawiau swyddogol a gweithdrefnau'r sefydliad i gynnal arferion gwaith diogel ac iach

P4 dewis adnoddau peirianyddol ar gyfer y dulliau gweithio a'r gweithrediadau i'w cyflawni

P5 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas

P6 cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r gofynion

P7 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd yn unol â'r rhaglen waith

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Meini Prawf Perfformiad 1

Dehongli gwybodaeth

K1 pa weithdrefnau a ddatblygwyd gan y sefydliad i adrodd am **wybodaeth** amhriodol ac **adnoddau** anaddas, yn ogystal â'u cywiro, a sut i'w gweithredu

K2 pa fathau o **wybodaeth** sydd ar gael, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli

K3 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer datrys **problemau** â'r **wybodaeth** a pham mae'n bwysig eu dilyn

Meini Prawf Perfformiad 2

Trefnu gydag eraill

K4 sut mae aelodau'r tîm yn **cyfleu** syniadau i'w gilydd

K5 sut mae **adnoddau'n** cael eu trefnu i gyd-fynd â'r cynnydd a wnaed yn y gwaith

K6 pa **sgiliau** sydd eu hangen i wneud y gwaith

Meini Prawf Perfformiad 3

Arferion gwaith diogel

K7 faint o **wybodaeth** y mae'n rhaid i weithwyr ei deall i gydymffurfio â'r **ddeddfwriaeth** berthnasol a chyfredol, **Codau Ymarfer cymeradwy a chanllawiau swyddogol** a sut i'w chymhwyso

K8 sut y dylid ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb

K9 beth yw **gweithdrefnau diogelwch** y sefydliad ar gyfer peiriannau, offer, cyfarpar ac eiddo personol

K10 beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny

K11 pam, pryd a sut y dylid defnyddio **cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**

K12 sut i weithredu arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni gofynion y **ddeddfwriaeth** gyfredol **a chanllawiau swyddogol**

Meini Prawf Perfformiad 4

Dewis adnoddau

K13 beth yw nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion yr **adnoddau** a sut y dylid cywiro diffygion

K14 sut y dylid defnyddio'r **adnoddau** a sut i adrodd am unrhyw **broblemau** sy'n gysylltiedig â nhw

K15 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis **adnoddau**, pam y cawsant eu datblygu a sut i'w defnyddio

K16 pa **beryglon** sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a'r **dulliau gweithio** a sut i ddelio â'r rhain

Meini Prawf Perfformiad 5

Lleihau'r risg o ddifrod

K17 sut i **ddiogelu gwaith** rhag difrod a phwrpas diogelu

K18 pam y dylid **gwaredu gwastraff** yn ddiogel a sut i wneud hyn

Meini Prawf Perfformiad 6

Bodloni gofynion y contract

K19 sut i ymgymryd â **dulliau gweithio** i fodloni'r gofynion a sut i adrodd am **broblemau**

K20 sut i **gynnal a chadw** peiriannau, offer a chyfarpar

Meini Prawf Perfformiad 7

Amser a neilltuwyd

K21 beth yw'r **rhaglen** i'r gwaith gael ei wneud o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Meini Prawf Perfformiad 1

1 dehongli gofynion, amserlenni, asesiadau risg a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr sy'n gysylltiedig â rheoli, cyfarwyddo ac arwain gweithrediad offer neu beiriannau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithrediadau codi ond gan gynnwys offer neu beiriannau sy'n cael eu defnyddio fel llwyfannau gwaith

Meini Prawf Perfformiad 2

2 trefnu'ch gwaith eich hun

3 cyfleu'r gweithrediadau peirianyddol a'r gwaith sydd i'w wneud i aelodau'r tîm a galwedigaethau cysylltiedig eraill

Meini Prawf Perfformiad 3

4 osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am ddiogelwch sy'n ymwneud ag o leiaf bedwar o'r canlynol

4.1 dulliau gweithio

4.2 defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel

4.3 defnyddio a storio offer yn ddiogel

4.4 defnyddio a storio cyfarpar yn ddiogel

4.5 risgiau penodol i iechyd

Meini Prawf Perfformiad 4

5 dewis adnoddau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith eich hun

5.1 offer llaw a chyfarpar ategol

5.2 cyfarpar signalu a chyfathrebu

Meini Prawf Perfformiad 5

6 diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod

7 atal difrod a chynnal lle gweithio glân

8 gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

Meini Prawf Perfformiad 6

9 dangos sgiliau mesur, dogni, amcangyfrif, dehongli, beirniadu, esbonio, paratoi, gorchymyn, cyfarwyddo, arwain, dangos, rhoi cyfarwyddyd, arwyddo, lleoli, symud, sicrhau, signalu a throsglwyddo

10 defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, cyfarpar ategol, signalu a chyfarpar mynediad

11 rheoli, cyfarwyddo ac arwain yr offer neu'r peiriannau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithrediadau codi ond gan gynnwys offer neu beiriannau sy'n cael eu defnyddio fel llwyfannau gwaith yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir, sy'n ymwneud â'r canlynol

11.1 arwyddion llaw

11.2 cyfarpar signalu â llaw

11.3 offer cyfathrebu llafar ac electronig

Meini Prawf Perfformiad 7

12 cwblhau'ch gwaith eich hun o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cleient

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Cyfathrebu

1 trafodaethau, brasluniau, data electronig, sesiynau briffio, signalu a chyfathrebu ar radio

Gwaredu gwastraff

2 cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

Argyfyngau

3 ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol

3.1 tanau, gollyngiadau ac anafiadau

3.2 argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol

Peryglon

4 y rhai hynny a nodir fel rhan o ddull gweithio, mewn asesiadau risg/Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, yng ngwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr ac mewn rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

Cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

5 y cyfarpar a nodir gan yr egwyddorion diogelu ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau o gyfarpar a phwrpas pob math, sefyllfaoedd gwaith a'r amgylchedd gwaith cyffredinol

5.1 mesurau diogelu ar y cyd

5.2 system awyru a gwacáu leol

5.3 cyfarpar diogelu personol

5.4 cyfarpar diogelu anadlol

Gwybodaeth

6 lluniadau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, cyfarwyddiadau gwaith, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr a chanllawiau swyddogol sy'n ymwneud â rheoli, cyfarwyddo ac arwain gweithrediadau offer a pheiriannau

Deddfwriaeth, Codau Ymarfer cymeradwy a chanllawiau swyddogol

7 mae hyn yn ymwneud â chyfrifoldebau'r gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd a'r amgylchedd wrth weithio yn y gweithle, o dan lefel y tir, mewn lleoedd cyfyng, ar uchder, ag offer a chyfarpar ac â deunyddiau a sylweddau ac wrth symud/storio deunyddiau, codi a chario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol

Cynnal a chadw

8 gofal y gweithiwr am offer llaw, cyfarpar ategol, cyfarpar signalu a chyfathrebu

Dulliau gweithio

9 cymhwyso gwybodaeth i sicrhau arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach mewn perthynas â'r dull/maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir i

9.1 nodi'r gwahaniaethau rhwng gweithrediadau cyfarwyddo ac arwain, symudiad cyfarwyddo ac arwain a slingio a signalau

9.2 dehongli cynlluniau gwaith

9.3 asesu a phennu gweithrediad peiriannau ac offer nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithrediadau codi, ond gan gynnwys offer neu beiriannau sy'n cael eu defnyddio fel llwyfannau gwaith, i gynnwys eu safle eu hunain, eu gweledegd, cyflwr a nodweddion y tir, peryglon agosrwydd a chyfyngiadau pwysau

9.4 adnabod nodweddion gweithredol a chyfyngiadau offer a pheiriannau, lled, hyd, uchder, radiws, cyrhaeddiad, capasiti

9.5 nodi mannau dall, parthau mathru posibl a phethau eraill sy'n cyfyngu ar allu'r gweithredwr i weld

9.6 rheoli, cyfarwyddo ac arwain gweithrediad peiriannau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithrediadau codi i echdynnu, cloddio, adeiladu, ffurfio, derbyn, cludo, cael mynediad, gosod, dosbarthu, cywasgu a phrosesu, sgubo, glanhau a chlirio

9.7 asesu a phennu symudiad deunyddiau neu nwyddau sydd wedi cael eu cloddio a'u hechdynnu, gan gynnwys ffurfio a symud cyflenwadau, dadlwytho, gollwng a llwytho

9.8 rheoli, cyfarwyddo ac arwain offer a pheiriannau nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn gweithrediadau codi ar dir garw, anwastad ac mewn mannau lle mae cyfyngiadau ar symudiad

9.9 sicrhau cadernid cyfarpar, strwythurau, deunyddiau a chydrannau sy'n agos at weithrediadau wrth gyfarwyddo ac arwain

9.10 adnabod a defnyddio cymhorthion monitro gweithrediadau a mesur, pegiau, tapiau, llinynnau, llinellau a lefelau, cyfarpar arwain electronig, systemau lleoli byd-eang a dyfeisiau marcio laser

9.11 gwirio mesuriadau

9.12 arwyddo a chyfathrebu gan ddilyn trefniadau gweithredol cydnabyddedig a chytunedig

9.13 adnabod y gofynion ar gyfer gweithio ar briffyrdd cyhoeddus

9.14 nodi, penderfynu a rhoi gwybod pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth benodol

9.15 defnyddio offer llaw a chyfarpar ategol

10 gwaith tîm a chyfathrebu

11 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â rheoli, cyfarwyddo ac arwain peiriannau nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn gweithrediadau codi ond gan gynnwys offer a pheiriannau sy'n cael eu defnyddio fel llwyfannau gwaith

Problemau

12 y rhai hynny sy'n codi o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio

12.1 eich awdurdod eich hun i unioni sefyllfa

12.2 gweithdrefnau adrodd y sefydliad

Rhaglen

13 mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd amcangyfrifedig

14 gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

Diogelu gwaith

15 diogelu gwaith rhag difrod a achosir gan weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw

Adnoddau

16 deunyddiau, cydrannau a chyfarpar mewn perthynas â niferoedd, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd mathau safonol ac arbenigol o

16.1 cyfarpar signalu a chyfathrebu

16.2 offer llaw a chyfarpar ategol

16.3 cyfarpar arwain electronig, systemau lleoli byd-eang a dyfeisiau marcio laser

16.4 cyfarpar mesur (pegiau, tapiau, llinynnau, llinellau a lefelau)

17 nodi gwasgeddau cynnal a phwysau, niferoedd, hyd, arwynebedd a chyfaint sy'n gysylltiedig â'r dull/gweithdrefn ar gyfer cyfarwyddo ac arwain gweithrediad offer a pheiriannau

Gweithdrefnau diogelwch

18 safle, gweithle, cwmni a gweithiwr

Sgiliau

19 eich galwedigaeth eich hun a galwedigaethau sy'n gysylltiedig â'r gwaith

Datblygwyd gan	CITB
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ionawr 2014
Indicative Review Date	Ionawr 2018
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	VR760
Galwedigaethau perthnasol	Gweithredwyr Cludiant a Gyrwyr Eraill (heb eu dosbarthu mewn man arall)
Cyfres/Set	Gweithrediadau Peiriannau (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Cyfarpar signalu; Cyfarpar cyfathrebu; Arwyddion llaw; Dyfeisiau marcio laser; Cyfarpar arwain electronig; Systemau lleoli byd-eang